



Annwyl Gwsmer

Newidiadau i Wasanaeth Teithiol y Fflint

Mae'n hyfryd gennym roi gwybod i chi y byddwn yn sefydlu gwasanaeth Swyddfa'r Post Teithiol ar gyfer cymunedau Pwll Glas a Licswm. Bydd y Gwasanaeth Teithiol yn dechrau ym Mhwll Glas ar ddydd Iau 7 Medi 2021 ac yn Licswm ar ddydd Gwener 10 Medi 2021.

Rwyf yn gwybod y bydd y gymuned yn ymuno â mi i groesawu'r newydd da hwn a gobeithio y byddwch chi a'n cwsmeriaid yn defnyddio'r gwasanaethau hyn. Os ydych chi'n gynrychiolydd lleol mae croeso i chi rannu'r wybodaeth hon gydag eraill yn eich sefydliad a fyddai â diddordeb ymarferol yn y mater.

Rydym ni wedi bod yn gweithio'n galed i ganfod ateb i adfer gwasanaethau lleol ac mae Gwasanaeth Teithiol, sef Swyddfa Bost deithiol ar gerbyd a gynlluniwyd yn benodol ac sy'n dod â gwasanaethau a chynhyrchion manwerthu Swyddfa'r Post i gymunedau heb ddibynnu ar eiddo sefydlog, yn ffordd brofedig o gynnal gwasanaeth ar gyfer cymunedau llai.

Gweithredir y Gwasanaeth Teithiol hwn gan bostfeistr Swyddfa'r Post y Fflint ac mae'n cynnig ystod eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post. Ceir manylion pellach am leoliad y ddau wasanaeth newydd ar ddiwedd y llythyr hwn.

Er mwyn cynnal y Gwasanaeth Teithiol newydd ym Mhwll Glas a Licswm bydd angen newidiadau i'r Gwasanaeth Teithiol a weithredir ar hyn o bryd gan Swyddfa'r Post y Fflint yn Northop Hall, Soughton, Mynydd Isa, New Brighton, Drury, Mancot, Llanbedr, Llanferres, Cilcain, Nannerch, Rhydymwyn, Saltney Ferry, Treuddyn, Bwychgwyn, Llandegla, Llanarmon yn lâl, Eryrys, Rhosesmor, Helygain, Pentre Helygain a Greenfield o'r wythnos sy'n dechrau ar ddydd Llun 6 Medi 2021. Hefyd bydd y Gwasanaeth Teithiol yn Llanbedr yn gwasanaethu cwsmeriaid newydd yn y lleoliad newydd - Maes Parcio Neuadd y Pentref, Ffordd Llandyrnog, Llanbedr, Rhuthun, LL15 1UP o ddydd Mawrth 7 Medi 2021.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y newidiadau uchod i Wasanaeth Teithiol y Fflint, cysylltwch â'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol fel a fanylir isod. Sylwch na chedwir eich sylwadau'n gyfrinachol oni bai eich bod yn gofyn i ni yn benodol i wneud hynny drwy ysgrifennu "Cyfrinachol" arnynt.

Rydym yn cyflawni'r hysbysiad hwn yn unol â'n Egwyddorion Ymgysylltu Cymunedol. Ceir rhan sy'n berthnasol i'r Hysbysiad hwn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch am eich cefnogaeth o ran adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post.

Yn gywir

Carol Williams

Carol Williams

Arweinydd Darpriaeth y Rhwydwaith

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk

postofficeviews.co.uk

RHADBOST Your Comments

Manylion y Gwasanaethau Newydd:

Yn ystod y pandemig Coronavirus mae'n bosibl y bydd angen i rai canghennau newid eu horiau agor.
Ceir y wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

Lleoliadau newydd Gwasanaeth Teithiol Y Fflint

Gwasanaeth Teithiol Pwll Glas

Maes Parcio
Neuadd y Pentref
Pwll Glas
Rhuthun
LL15 2PB

Oriau agor

Mawrth	09:00 – 10:30
--------	---------------

Gwasanaethau

Bydd ystod eang o wasanaethau ar gael.

Mynediad

Mae stepen i'r cerbyd Teithiol ac mae tinbren electronig ar gael ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a rhai ag anabledd.

Cludiant/Parcio

Mae lle i barcio yn agos i'r lle y bydd y cerbyd Teithiol yn parcio.

Licswm Gwasanaeth Teithiol

Tu allan i dafarn y Crown
The Greenways
Licswm
Treffynnon
CH8 8NQ

Oriau agor

Gwener	11:20 – 11:50
--------	---------------

Gwasanaethau

Bydd ystod eang o wasanaethau ar gael.

Mynediad

Mae stepen i'r cerbyd Teithiol ac mae tinbren electronig ar gael ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a rhai ag anabledd.

Cludiant/Parcio

Mae lle i barcio yn agos i'r lle y bydd y cerbyd Teithiol yn parcio.

Newidiadau i oriau agor a lleoliad Gwasanaeth Teithiol Y Fflint yn Llanbedr

Gwasanaeth Teithiol Llanbedr

Cyfeiriad presennol

Maes Parcio'r Griffin Inn,
Llanbedr
Dyffryn Clwyd
Rhuthun,
LL15 1UP

Cyfeiriad newydd o 7 Medi 2021

Maes Parcio Neuadd y Pentre
Ffordd Llandyrnog
Llanbedr
Rhuthun
LL15 1UP

Oriau agor cyfredol

Iau	14:30 – 15:15
-----	---------------

Oriau agor newydd

Mawrth	10:45 – 11:30
--------	---------------

Newidiadau i oriau agor yn y lleoliadau eraill ar gyfer Gwasanaeth Teithiol Y Fflint

Gwasanaeth Teithiol Northop Hall, Tu allan i'r Top Monkey, Ffordd y Pentref, Northop Hall, Yr Wyddgrug, CH7 6HS

Oriau agor cyfredol

Mercher	15:30 – 16:30
---------	---------------

Oriau agor newydd

Llun	09:00– 09:45
------	--------------

Gwasanaeth Teithiol Mynydd Isa, Maes Parcio Caffi a Chanolfan Gymunedol Mynydd Isa, Mercia Drive, Mynydd Isa, Yr Wyddgrug, CH7 6UH

Oriau agor cyfredol

Mercher	12:00 – 14:00
Gwener	14:30 – 16:30

Oriau agor newydd

Llun	11:00 – 13:00
Iau	15:00 – 16:30

Gwasanaeth Teithiol Sychdyn, Maes Parcio Neuadd Goffa Sychdyn, Ffordd Fawr, Sychdyn, Yr Wyddgrug, CH7 6ED

Oriau agor cyfredol

Mercher	14:15 – 15:15
---------	---------------

Oriau agor newydd

Llun	10:00– 10:45
------	--------------

Gwasanaeth Teithiol New Brighton, Maes Parcio'r Ganolfan Gymunedol, Ffordd Moel Famau, New Brighton, CH7 6QX

Oriau agor cyfredol

Mercher	10:45 – 11:45
---------	---------------

Oriau agor newydd

Llun	13:45 – 14:30
------	---------------

Gwasanaeth Teithiol Drury, Tu allan i Lester's Farm Shop, 76 Drury Lane, Bwcle, CH7 3DX

Oriau agor cyfredol

Mercher	09:00 – 10:00
---------	---------------

Oriau agor newydd

Llun	14:45– 15:30
------	--------------

Gwasanaeth Teithiol Mancot, Maes Parcio'r Llyfrgell Gymunedol, Mancot Lane, Mancot, Glannau Dyfrdwy, CH5 2AH

Oriau agor cyfredol

Mawrth	14:30 – 15:30
--------	---------------

Oriau agor newydd

Llun	15:45 – 16:30
Mercher	10:00 – 11:00

Gwasanaeth Teithiol Llanferres, Cilfan ger Eglwys St Berres, Cae Derwen, Llanferres, CH7 5SX

Oriau agor cyfredol

Iau	15:30 – 16:30
-----	---------------

Oriau agor newydd

Mawrth	11:45 – 12:30
--------	---------------

Gwasanaeth Teithiol Cilcain, Maes Parcio Neuadd y Pentref, Y Sgwâr, Cilcain, Yr Wyddgrug, CH7 5NN

Oriau agor cyfredol

Llun	09:00 – 10:30
------	---------------

Oriau agor newydd

Mawrth	13:30– 15:00
Gwener	09:00 –10:30

Gwasanaeth Teithiol Nannerch, Maes Parcio'r Cross Foxes, Ffordd y Pentref,
Nannerch, Yr Wyddgrug, CH7 5RD

Oriau agor cyfredol

Llun	11:15 – 12:00
------	---------------

Oriau agor newydd

Mawrth	15:15 – 15:45
Gwener	10:45 – 11:15

Gwasanaeth Teithiol Rhydymwyn, Tu allan i orsaf wasanaethau Rhydymwyn,
Ffordd Dinbych, Rhydymwyn, CH7 5HE

Oriau agor cyfredol

Llun	12:15 – 13:00
------	---------------

Oriau agor newydd

Mawrth	16:00– 16:30
Gwener	12:45 –13:30

Gwasanaeth Teithiol Saltney Ferry, Maes Parcio tafarn Saltney Ferry,
1 Mainwaring Drive, Saltney Ferry, CH4 0AX

Oriau agor cyfredol

Mawrth	15:45 – 16:45
--------	---------------

Oriau agor newydd

Mercher	09:00 – 09:45
---------	---------------

Gwasanaeth Teithiol Treuddyn, Cilfan yn Ffordd y Rhos, Treuddyn, Yr Wyddgrug
CH7 4NJ

Oriau agor cyfredol

Iau	09:00 – 09:45
-----	---------------

Oriau agor newydd

Iau	09:00 –10:00
-----	--------------

Gwasanaeth Teithiol Bwlchgwyn, Maes Parcio'r Ganolfan Gymunedol, Stryt Maelor, Bwlchgwyn, Wrecs
LL11 5YA

Oriau agor cyfredol

Iau	10:30 – 11:00
-----	---------------

Oriau agor newydd

Iau	10:15 – 10:45
-----	---------------

Gwasanaeth Teithiol Llandegla, Tu allan i'r Siop Gymunedol,
Allt yr Efail, Llandegla, Wrecsam, LL11 3AW

Oriau agor cyfredol

Iau	11:15 – 12:15
-----	---------------

Oriau agor newydd

Iau	11:00 – 12:00
-----	---------------

Gwasanaeth Teithiol Llanarmon yn Iâl, Maes Parcio'r Raven Inn, Ffordd Rhiw Iâl, Llanarmon Yn Iâl, Yr W
4QE

Oriau agor cyfredol

Iau	12:30 – 13:30
-----	---------------

Oriau agor newydd

Iau	13:00 –14:00
-----	--------------

Gwasanaeth Teithiol Eryrys, Tu allan i Ganolfan Dewi Sant, Eryrys, CH7 4BX

Oriau agor cyfredol

Iau	13:45 – 14:15
-----	---------------

Oriau agor newydd

Iau	14:15 – 14:45
-----	---------------

Gwasanaeth Teithiol Rhosesmor, Maes Parcio Neuadd y Pentref, Rhosesmor,
Yr Wyddgrug, CH7 6WF

Oriau agor cyfredol

Llun	13:15 – 14:00
------	---------------

Oriau agor newydd

Gwener	13:45 – 14:30
--------	---------------

Gwasanaeth Teithiol Helygain, Maes Parcio Neuadd y Pentref, Helygain, Treffynnon

Oriau agor cyfredol

Llun	14:15 – 14:45
------	---------------

Oriau agor newydd

Gwener	14:40 – 15:10
--------	---------------

Gwasanaeth Teithiol Pentre Helygain, Maes Parcio'r Ganolfan Gymunedol,
Pentre Helygain, Treffynnon, CH8 8HP

Oriau agor cyfredol

Llun	15:00 – 15:30
------	---------------

Oriau agor newydd

Gwener	15:15 – 15:45
--------	---------------

Gwasanaeth Teithiol Greenfield, Tu allan i New Shop Parade, Greenfield Road, CH8 7QS

Oriau agor cyfredol

Llun	15:45 – 16:30
------	---------------

Oriau agor newydd

Gwener	16:00 – 16:30
--------	---------------

**I gael y wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, mewn print bras, sain neu
braille ffoniwch 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynnir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau Agor
- Cau dros dro¹/ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n priodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Byddwn yn **Ymgysylltu** – pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:

- Ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd (os yw cangen wedi bod ar gau am fwy na thri mis)
- Masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol yn ei safle cyfredol.

Er y gwnaed y penderfyniad i fwrw ymlaen, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid, megis trefniadau mynediad a'r dyluniad mewnol. Byddwn yn rhoi pedair wythnos o rybudd neu, os yw amgylchiadau esgusodol yn atal hyn, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol², y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol³, i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau ynghylch mynediad i'r gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

Byddwn yn **Ymgynghori** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:

- Cau cangen Swyddfa'r Post⁴ yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos⁵ er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwedd
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y gŵyn).

postofficeviews. co.uk.

comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

¹ Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen sydd ar gau dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

² Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cyngorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.

³ Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn 2 a 3 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

⁴ Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

⁵ Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.